# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 18fed Mai 2006 |
| ADRODDIAD GAN: | **PAUL CLAYDON**<br>**PRIF SWYDDOG TÂN CYNORTHWYOL** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Cyflwyno i'r Aelodau Gynllun Lleihau Risg drafft ar gyfer 2007-08 ar gyfer ei adolygu cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 19eg Mehefin 2006. |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Ar Fawrth 21ain 2006 lansiodd Llywodraeth y Cynulliad ei gyfarwyddyd ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub ar Gynlluniau Lleihau Risg o'r enw "Cymru Gwlad Fwy Diogel". Daw hwn yn lle'r cyfarwyddyd a'r polisi blaenorol, sef y Cynllun Integredig Rheoli Risg, o'r flwyddyn ariannol 2007/08 ymlaen.

1.2 Mae'r cyfarwyddyd hwn yn darparu'r cyfarwyddiadau strategol sydd eu hangen ar Awdurdodau ar gyfer wynebu risg mewn ffordd strwythuredig tra'n cofleidio'r pwyslais cynyddol ar atal.

1.3 Mae'n bwysig i Aelodau nodi:-
- Mai prif nod y Cynllun yw lleihau risg.
- Bod yn rhaid i'r Awdurdodau fod â Chynllun Lleihau Risg neu gynllun gweithredu sy'n arwain ohono, yn eiddo i'r cyhoedd, ac wedi ymgynghori yn ei gylch, erbyn Hydref 31ain ym mhob blwyddyn.
- Bod yn rhaid i'r Awdurdodau ymgynghori'n eang ar y Cynllun Lleihau Risg, a chaniatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghori.
- Rhaid i'r Awdurdod asesu a dadansoddi risg.
- Rhaid i'r Awdurdod ystyried risg corfforaethol a'r amgylchedd fusnes, yn ogystal â'r risg cymunedol.

1.4 Diben y papur eglurhaol hwn yw cyflwyno Cynllun Lleihau Risg drafft ar gyfer 2007-08 i'r Aelodau.

2. **Cynllun Lleihau Risg 2007-08**

2.1 Mae'r meysydd pynciol ar gyfer y Cynllun wedi cael eu rhannu'n risg cymunedol a chorfforaethol.

2.2 Y risgiau cymunedol yw Marwolaethau ac Anafiadau, Tanau ac Argyfyngau, Gwrthsefyll Argyfyngau yn Lleol ac yn Genedlaethol, yr Effaith ar yr Amgylchedd ac Ymgysylltu â'r Gymuned.

2.3 Y risgiau corfforaethol yw Gallu, Gwrthsefyll a Llywodraethu.

2. **Cynllun Lleihau Risg 2007-08** *(parhad)*

2.4 Mae cynnwys y Cynllun yn bodloni disgwyliadau'r cyfarwyddyd gan ei fod yn cynnwys:-

- Adnabod y risg
- Effeithiolrwydd y mesurau rheoli presennol
- Adnabod cyfleoedd i wella
- Safonau Gwasanaeth
- Buddion y newidiadau arfaethedig

3. **CASGLIADAU**

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r cyfyngiadau amser llym sy'n cwmpasu llunio Cynllun Lleihau Risg cyntaf yr Awdurdod. Mae'r broses o asesu a dadansoddi risg, a ddylai fod wedi cael ei gynnal dros gyfnod o chwech i saith mis, wedi cael ei grynhoi i bum wythnos.

3.2 Er mwyn bodloni'r gofynion sydd yn adran 1.3, y dyddiad diwethaf posib i anfon y Cynllun ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd er mwyn sicrhau gallu adrodd ynghylch yr ymatebion i'r Awdurdod a rhoi Cynllun y cytunwyd arno yn eiddo i'r cyhoedd erbyn 31ain o Hydref yw'r 10fed o Orffennaf 2006.

4. **ARGYMHELLION**

4.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2 Bod yr Aelodau'n ystyried pa ychwanegiadau, gwelliannau neu newidiadau y dylid eu hargymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun drafft.